

Arweiniad ar Sŵn Ceiliogod yn Canu

Mae cadw ceiliogod yn agos at gartrefi'n debygol o esgor ar gwynion am niwsans.

Y gwir amdani ydy ein bod ni i gyd yn cadw sŵn, boed hynny'n sgwrsio neu'n chwarae cerddoriaeth. Mae rhai mathau o sŵn, yn enwedig os ydyn nhw'n digwydd yn rheolaidd neu ar adeg anghymdeithasol o'r dydd, yn medru effeithio ar ansawdd bywyd pobl eraill.

Mae cwynion am y ffaith fod ceiliogod yn canu'n niwsans ar gynnydd, yn enwedig pan mae'r adar yn cael eu cadw mewn ardaloedd trefol a phoblog yn hytrach na'r lleoliad cefn gwlad mwy traddodiadol.

Cyngor ymarferol i ostwng y canu

- **Lleoliad** – mae'n bwysig sicrhau bod y ceiliog mor bell i ffwrdd ag sy'n ymarferol oddi wrth gartrefi'r cymdogion.
- **Cystadleuaeth** - lle mae mwy nag un ceiliog yn cael eu cadw, neu mae rhai eraill ger llaw, fwy na thebyg y bydd y ceiliogod yn cystadlu â'i gilydd. Gall hyn arwain at gynnydd sylweddol yn lefel y sŵn. Ystyriwch a oes angen ceiliog arnoch chi mewn gwirionedd: does dim rhaid cael un er mwyn i ieir ddodwy.
- **Lloches** - cadwch y cwt mor dywyll â phosibl i leihau'r tebygrwydd y bydd y ceiliog yn canu'n gynnar iawn. Bydd yn canu cynted y daw golau i mewn i'r cwt. Peidiwch â gadael ceiliog allan o'r cwt tywyll tan amser rhesymol - efallai 7:00a.m. Dylai nenfwd y cwt gael ei ostwng er mwyn arbed i'r ceiliog daflu ei ben yn ôl i ganu.

Y Gyfraith

Rhaid i berchennog y ceiliog(od) sicrhau nad ydy'r canu'n achosi niwsans sŵn statudol.

Wrth ystyried a oes niwsans statudol yn bodoli, bydd Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd yn cloriannu nifer o ffactorau, yn cynnwys:

- **Cyfansoddiad yr ardal** – mae ceiliogod wedi bod yn rhan o fywyd cefn gwlad Cymru ers cenedlaethau, ac i raddau, maent yn rhan o fywyd ac apêl cefn gwlad. Dydy hynny ddim yn golygu na all sŵn ceiliog achosi niwsans yng nghefn gwlad, ond mae'n llai tebygol mewn lleoliad gwledig, anghysbell o'i gymharu â chadw ceiliogod mewn ardaloedd mwy poblog fel trefi a phentrefi.

- **Adeg y dydd** – mae'n fwy tebygol y bydd y gyfraith yn ystyried bod niwsans yn cael ei achosi os ydy'ch ceiliog yn canu ar adegau anghymdeithasol, h.y. yn gynnar iawn y bore neu'n hwyr iawn gyda'r nos.
- **Hyd / amledd** – mae'n fwy tebygol y bydd y gyfraith yn ystyried bod niwsans yn cael ei achosi os ydy'ch ceiliog(od) yn canu'n rheolaidd ac am adegau hir. Mae hyn yn fwy tebygol os oes nifer fawr o adar gan y byddant yn cystadlu â'i gilydd.

Archwilio Cwynion

Os ydyn ni'n derbyn cynw yn am sŵn, mae'n ofyniad cyfreithiol arnon ni i'w archwilio.

Os ydy trafodaethau anffurfiol gyda pherchennog y ceiliog yn methu, ac rydyn ni wedi ein hargyhoeddi bod y sŵn yn Niwsans Statudol o dan Ddeddf Amddiffyn yr Amgylchedd 1990, bydden ni'n cyflwyno Hysbysiad Atal Sŵn a fyddai'n gofyn bod niwsans sŵn y ceiliog yn cael ei leddfu. Fel arall, gall y person sy'n gyfrifol amdano wynebu dirwy o £5,000 (cartref preifat) neu £20,000 (safle diwydiannol / masnachol).

Materion cyffredinol eraill sy'n ymwneud â hylendid cadw ieir a cheiliogod

- Gall bwyd a diod sy wedi eu gadael i'r adar ddenu plâu fel llygod mawr a llygod.
- Gall cytiau ieir gynnig lloches i lygod mawr a llygod hefyd. I arbed hyn, dylid glanhau cytiau'n rheolaidd, a dylai bwyd sy heb ei fwyta gael ei gludo oddi yno bob dydd.
- Rhoi bwyd yr adar mewn cynhwysydd sefydlog a chadarn yn hytrach na gwasgaru bwyd ar y tir.
- O dan Ddeddf Atal Niwed gan Blâu 1949 mae dyletswydd arnoch i gadw llygod mawr a llygod oddi ar eich tir.
- Dros yr haf, os nad yw'r adar yn lân, mae'r arogl yn gallu bod yn annymunol iawn, a gall hyn ddenu clêr. Gall y rhain fod yn niwsans i chi ac i'ch cymdogion.